



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

<b>TEITL</b>	<b>Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>13 Hydref 2020</b>
<b>GAN</b>	<b>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd</b>

**Offeryn Statudol a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

### **Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, bydd y diwygiadau i Reoliad (EU) 2019/1021 yn galluogi'r DU i weithredu Confensiwn Stockholm drwy reoleiddio'r ffordd y caiff llygryddion organig parhaus eu cynhyrchu, eu gosod ar y farchnad a'u defnyddio. Bydd y diwygiadau hefyd yn galluogi awdurdodau'r DU i reoleiddio stociau a rheoli gwastraff pan fo llygryddion organig parhaus yn bresennol, ac yn gosod gofynion monitro ac adrodd. Ar ben hynny, bydd y diwygiadau yn creu pŵer a fydd yn galluogi'r DU i osod y mesurau angenrheidiol i sicrhau bod modd rheoli ac olrhain gwastraff sydd wedi'i halogi gan lygryddion perthnasol.

### Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys a ddiwygiwyd gan Reoliadau 2019

Rheoliad (EU) 2019/1021

#### Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus 2007
- Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 (OS 2018/1405)
- Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwylt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/473)

## **Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O dan Reoliadau 2019, trosglwyddir swyddogaethau Comisiwn yr UE i Weinidogion ar gyfer meysydd o fewn cymhwysedd. Fel arall, mae Rheoliadau 2020 yn darparu ar gyfer y swyddogaethau hyn i'w harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru yn unig.

### **Diben y diwygiadau**

Mae OS y weithdrefn gadarnhaol yn mynd i'r afael â gwendidau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir rhag gweithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r UE.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud sawl cywiriad i gyfraith yr UE a ddargedwir, sy'n ymwneud â swyddogaethau deddfwriaethol. Maent yn angenrheidiol i ddiogelu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r meysydd a nodir uchod ac isod. Maent hefyd yn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE yn parhau i weithio ar draws y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n cyfuno newidiadau i swyddogaeth ddeddfwriaethol sy'n defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol tra bo'r swyddogaethau anneddfwriaethol wedi'u cynnwys yn OSau cynharach gan Defra sy'n dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol a osodwyd ar ddiwedd 2018 ar gyfer pob un o'r meysydd deddfwriaethol.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud cywiriadau i fynd i'r afael â diffygion yn y ddeddfwriaeth i alluogi'r ddeddfwriaeth i weithio ar ôl y diwrnod ymadael. Mae Rheoliadau 2020 yn newid pwy yw'r cyrff sy'n cyflawni'r swyddogaethau benodedig o natur ddeddfwriaethol ac yn trosi gweithdrefnau'r UE i weithdrefnau'r DU pan fo'n briodol.

### **Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio:**

Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus 2007. Mae Llygryddion Organig Parhaus ("POPs") yn sylweddau sy'n cael eu hadnabod yn rhai gwenwynig, sy'n biogronni'n barhaus ac sy'n gallu teithio pellterau hir. Y bwriad yw cael rheoliad yn y DU, ar ôl iddi ymadael â'r UE, sy'n nodi'r un cyfyngiadau â Rheoliad yr UE ar y ffordd y caiff POPs eu cynhyrchu, eu gosod ar y farchnad a'u defnyddio. Mae hefyd yn nodi'r un esemptiadau i'r cyfyngiadau hynny. Ar ben hynny, bydd hefyd yn gwahardd mewnfario POPs sydd wedi'u cynhyrchu'n fwriadol. Bydd yn gosod terfynau ynghylch faint o POPs ddylai fod mewn cynhyrchion ac ar gyfer dinistrio POPs mewn cynnyrch gwastraff. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i stociau a gwastraff gael eu nodi a'u rheoli i leihau neu ddileu POPs a ryddheir o'r ffynonellau hyn. Mae'n ofynnol i'r sawl sy'n rhan o Gonfensiwn Stockholm adrodd ar eu dull o reoli POPs ac mae hyn wedi'i nodi yn y rheoliad. Mae'r newidiadau y mae'r offeryn hwn yn ymdrin â nhw yn cynnwys:

- (a) diwygio cyfeiriadau at yr UE a sefydliadau'r UE a phrosesau gweinyddol i brosesau cyfatebol ym Mhrydain Fawr;

(b) diweddarau cyfeiriadau cyfreithiol i gyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol Prydain Fawr; ac

(c) cadw'r gofynion ar gyfer llywodraethau'r Deyrnas Unedig i fonitro ac adrodd.

Rheoliad (EU) 2019/1021 ar lygryddion organig parhaus. Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliad 2019/1021 er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i weithio ar ôl i'r cyfnod gweithredu ddod i ben pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE yn llwyr.

Mae Rhan 4 o Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 wedi'i dirymu, a wnaeth gywiro'r Rheoliad (EC) Rhif 850/2004 ar POPs sydd bellach wedi'i ddiddymu.

Mae Rheoliad 2 o Reoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 wedi'i ddiddymu, a drosglwyddodd swyddogaethau deddfwriaethol a oedd wedi'u cynnwys yn Rheoliad (EC) Rhif 850/2004 ar POPs

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n egluro effaith y diwygiadau, i'w gweld yma:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/1MRfOFTK/SI-2020/>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth o ran polisi. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl ymadawiad y DU â'r UE.